# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, 21ain o Ragfyr 2009 yn Siambr Cyngor Sir Ddinbych yn Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**YN BRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); J Brown (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar y 19eg o Hydref 2009 ar gyfer eu cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan y Cyng. S Frobisher a'r Cyng. A M Jones yn ystod Hydref a Thachwedd 2009 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 BREINLEN CYMRU AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU'R AELODAU

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau fod yr Awdurdod yn ddiweddar wedi derbyn Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu'r Aelodau. Er mwyn cydnabod yr anrhydedd yn ffurfiol, aeth y Clerc yn ei flaen i ailgyflwyno'r wobr a dderbyniodd y Cadeirydd gan WLGA. Hefyd, fe awgrymodd y Clerc y gallai'r Aelodau fod yn dymuno ystyried sut i ddarparu adborth ynglŷn â gwaith yr Awdurdod i'r awdurdodau cyfansoddol fel rhan o'u gwaith yn y dyfodol ar ddatblygu'r aelodau.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r adborth a ddaeth gan WLGA.**

7 Y GYLLIDEB DDRAFFT 2010-11

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Trysorydd, a oedd yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod o ran y gyllideb ar gyfer 2010-11 a'r rhagolygon ar gyfer 2011-12 a 2012-13. Roedd y gyllideb ddrafft yn cynnig cynnydd o 2.5%, a oedd yn uwch na'r setliad ariannol cyfartalog drwy Ogledd Cymru, ond a oedd yn cynnwys cynnydd o bron i 1% i'w fuddsoddi mewn diweddaru'r systemau TGCh. Bydd yr effaith ar yr awdurdodau cyfansoddol trwy Ogledd Cymru yn amrywio oherwydd poblogaeth pob sir, ac felly bydd y ffigwr ar gyfer Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych fymryn yn uwch.

7.2 O ran y rhaglen gyfalaf, holodd y Cyng. E C George ynglŷn â hynt yr orsaf deir-ran yn Wrecsam, ac esboniodd ACFO Hanks i'r Aelodau beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf o ran y tir. Nodwyd bod yr achos busnes amlinellol ar fin cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, ac y bydd yr achos busnes manwl yn cael ei ddatblygu yn y Flwyddyn Newydd. Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi gosod cyllideb o £5m ar gyfer cyfran y Gwasanaeth Tân ac Achub o'r prosiect, a bod gwaith wrthi'n cael ei wneud mewn perthynas â'r fanyleb, a hynny er mwyn sicrhau nad eir y tu hwnt i hynny.

7.3 Gofynnodd y Cyng. M Ll Davies am yr effaith ar y llinell gyflogau petai'r Trysorlys yn penderfynu peidio â dyfarnu unrhyw gynnydd yn 2010-11. Esboniodd y Trysorydd ei bod yn fwy realistig neilltuo cyllideb ar gyfer codiad cyflog o 1%, er y byddai hyn yn lleihau'r gofyniad yn gyllideb o ryw £238,000. Rhoddodd yr Is-Gadeirydd wybod i'r Aelodau fod panel tân yr LGA hefyd wedi argymell y cam gweithredu hwn.

7.4 **PENDERFYNWYD:**

(i) **cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-11 yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad;**
(ii) **nodi'r sefyllfa alldro a ragwelir ar gyfer 2009-10;**
(iii) **cytuno i'r Awdurdodau Cyfansoddol gael gwybod am y cyfraniadau dros dro y bydd eu hangen ar gyfer 2010-11;**
(iv) **cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2010-11 a'r dulliau cysylltiedig o ariannu;**
(v) **cytuno y dylid, petai unrhyw newidiadau yn dod i'r amlwg cyn 15 Chwefror 2010 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ostwng y gyllideb, dirprwyo hynny i'r Trysorydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc. Dylid cyfeirio unrhyw gynnydd at Banel Gweithredol a fydd yn ailymgynnull;**
(vi) **cytuno i ACFO Hanks barhau i roi gwybod aelodau Wrecsam am unrhyw ddatblygiadau gyda'r orsaf deiran.**

8 DARPARU RHEOLWYR AR YR OCHR WEITHREDOL

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybodaeth i'r aelodau am y modd y mae darparu swyddogion pwrpasol ar yr ochr weithredol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd rhagddo. Fe gafodd yr Aelodau gyflwyniad yn y cyfarfod hefyd.

8.2 Yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg yn 2009/10, roedd yr Awdurdod wedi cytuno i gynnal adolygiad o ofal swyddogion, a hynny er mwyn gweld sut mae'r Gwasanaeth yn darparu gofal goruchwyliol gan reolwyr canol ac uwch mewn digwyddiadau brys. Bwriad yr adolygiad oedd edrych ar hyfywedd cael 'opsiwn ymateb pwrpasol' a ph'un ai y byddai hynny'n gwella sicrwydd yr ochr weithredol mewn digwyddiadau, ac effeithlonrwydd y Gwasanaeth.

8.3 Buwyd mewn cysylltiad trwy gydol y broses â'r holl swyddogion cyfredol ar y lefel weithredol yn y gwasanaeth, a hynny trwy gyfres o ddiwrnodiau 'cwrdd i ffwrdd', ac maent yn cael gwybod am hynt yn broses. Mae'r gwaith yn

parhau mewn perthynas â datblygu system shifftiau, ac mae'r broses gwerthuso swyddi'n mynd yn ei blaen ar gyfer asesu'r rolau yn yr ochr Diogelwch Tân sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan staff yr ochr weithredol ond sydd heb fod yn rhai sy'n gofyn am gymhwysedd yr ochr weithredol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael unwaith y bydd y broses gwerthuso swyddi wedi ei chwblhau.

8.4 Bydd cynllun cyflawni, gyda'r costau llawn, yn cael ei wneud ar gyfer ei ystyried gan y Panel Gweithredol ym mis Chwefror 2010. Un o'r heriau fydd cynnal y gofal yn ystod y cyfnod pontio.

8.5 Fel aelod o'r Panel Gweithredol, rhoddodd y Cyng. Dunn wybod i'r Aelodau na chafwyd unrhyw drafodaethau ynglŷn ag arbedion yn ystod yr un o gyfarfodydd y Cynllun Lleihau Risg na'r Panel Gweithredol; cynhaliwyd yr adolygiad i wella'r gwasanaeth i'r cyhoedd ac i ddod â'r Gwasanaeth Tân ac Achub i'r unfed ganrif ar hugain. Ailadroddwyd y sylwadau hyn gan yr Is-Gadeirydd, a dweud mai diben yr adolygiad, a symbylwyd gan gynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg, yw cael cydbwysedd rhwng agweddau ar yr ochr weithredol a darparu'r gwaith diogelwch tân.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

9 Y CYNLLUN IAITH

9.1 Cyflwynodd ACFO Hanks yr adroddiad ar y Cynllun Iaith diwygiedig ar gyfer 2010-13, sy'n adeiladu ar y Cynllun diwethaf. Dyma'r trydydd cynllun er 1996. Ymgynghorwyd ynghylch y Cynllun rhwng Medi a Thachwedd; dim ond dau sylw a ddaeth i law, ac roedd y ddau'n gadarnhaol ynglŷn â'r Cynllun.

9.2 Mae'r Cynllun yn amlinellu'r strategaeth sgiliau ieithyddol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob aelod newydd o'r staff a'r rhai sy'n llwyddo mewn dyrchafiad i ddysgu lefel sylfaenol o Gymraeg. Mae dau gryno-ddisg wedi cael eu recordio i gynorthwyo'r staff i ddysgu'r iaith.

9.3 Roedd y Cyng. L W Davies yn falch o weld y Gwasanaeth yn symud yn ei flaen gyda'r iaith. Rhoddodd y Cyng. Davies ganmoliaeth i'r Gwasanaeth am ei waith yn codi proffil yr iaith ac yn ei hyrwyddo, a chanmolodd yr Uwch Dîm Rheoli am ei ymrwymiad i'r iaith. Roedd y Cyng. Davies yn gobeithio y byddai'r ymdrechion yn cael eu hadlewyrchu mewn rhagor o gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y Gwasanaeth yn y dyfodol.

9.4 Nodwyd bod cyfle i'r Aelodau gymryd rhan yn y broses, a bod modd i'r cryno-ddisgiau fod ar gael i'r Aelodau os gwneir cais amdanynt.

9.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Iaith diwygiedig 2010-13 i'w gyhoeddi.**

10 DYFODIAD Y MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y camau a gymerir tuag at ddyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a oedd wedi cael cydsyniad brenhinol yn gynharach eleni. Bwriad y Mesur yw dod yn lle'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth Gwerth Gorau, a rhoi fframwaith cadarnach ar gyfer

cynllunio cymunedol. Bydd y Mesur yn cael ei gyflwyno'n gynyddrannol o fis Ionawr 2010 ymlaen.

10.2 O ran cynllunio corfforaethol, bydd y newidiadau ar gyfer yr Awdurdod a'r Gwasanaeth yn effeithio ar y prosesau cynllunio blynyddol arferol a'r rhyngweithio rhwng yr Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae arweiniad newydd wedi ei gyhoeddi ynglŷn â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, ac mae wedi ei ryddhau at ddiben ymgynghori ar hyn o bryd. Mae'r Cynulliad hefyd yn ymgynghori ynghylch un arweiniad ar ran 2 o'r Mesur ar gyfer pob 'partner cynllunio cymunedol'.

10.3 Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y tri awdurdod tân ac achub, y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru i symleiddio ac uno'r gwahanol brosesau (cynlluniau gwasanaeth blynyddol, ffurflenni blynyddol, gosod targedau, proses y Cynllun Lleihau Risg, cynllunio'r gyllideb, ymgynghoriadau cyhoeddus, prosesau sicrwydd yr ochr weithredol ac archwilio) cyhyd ag y bo modd.

10.4 Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol am yr adroddiad, a thynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y dangosyddion perfformiad yn cymryd i ystyriaeth y bydd amseroedd ymateb drwy Ogledd Cymru yn amrywio oherwydd natur wledig yr ardal.

10.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd am y Mesur.**

11 Y DIWEDDARAF GAN YR AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH (HSE) A'R DIWEDDARAF YN GYFFREDINOL GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN

11.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod yn ffurfiol i'r Aelodau fod Carl Sargeant wedi ei benodi'n Weinidog y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Chyfiawnder Cymdeithasol. Roedd perthynas yr Awdurdod gyda'r Gweinidog blaenorol, Dr Brian Gibbons, wedi bod yn ardderchog, a bu ef yn gefnogwr cryf i'r gwasanaeth tân ac achub trwy Gymru. Y gobaith yw parhau'r berthynas weithio ardderchog gyda'r Gweinidog newydd.

11.2 Hefyd, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod pum marwolaeth gyda chysylltiad â thân wedi digwydd yng Ngogledd Cymru er Tachwedd 16eg. Roedd pedair o'r rheini'n cael eu trin fel rhai damweiniol. O ganlyniad i'r digwyddiadau hyn ac Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân, bydd y datganiadau i'r wasg a phob neges i'r cyfryngau gan y Gwasanaeth yn rhai caletach o hyn ymlaen. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r safiad hwn, a nodwyd y cais eu bod i siarad â'r Prif Swyddog Tân os oes ganddynt unrhyw bryderon am faterion y cyfryngau.

Gadawodd y Cyng. M Ll Davies y cyfarfod ar yr adeg hon.

11.3 Roedd y Cyng. George yn llwyr gefnogi'r cam gweithredu a fwriadwyd, ac roedd yn awgrymu y gallai'r Aelodau weithio'n agosach gyda'u gorsafoedd tân lleol i drosglwyddo'r neges diogelwch tân. Hefyd, fe ddiolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am roi gwybod iddynt pan fo digwyddiadau difrifol yn digwydd yn eu hardaloedd.

11.4 Roedd yr Aelodau'n ymwybodol fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn gynharach yn y flwyddyn, wedi penderfynu cynnal arolwg strwythuredig o nifer o wasanaethau tân ac achub trwy'r Deyrnas Unedig. Roedd Gogledd Cymru wedi ei ddewis yn rhan o'r ymweliadau eleni. Roedd yr Awdurdod Gweithredol yn canolbwyntio ar dri maes allweddol, sef y System Rheoli Digwyddiadau, hyfforddiant ar ddefnyddio offer anadlu, a sicrwydd yr ochr weithredol. Roedd yr arolwg wedi cael ei gynnal yn ystod wythnos gyntaf Rhagfyr, ac roedd adroddiad ysgrifenedig i fod i ddod yn y Flwyddyn Newydd. Bydd crynodeb o'r adroddiad ar gael i'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf.

11.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gan y Prif Swyddog Tân.**

12 PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Awdurdod fod dau Aelod annibynnol wedi eu penodi i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

12.2 Rhoddodd y Clerc wybod i'r Aelodau fod tri ymgeisydd wedi cael eu cyfweld, ac yn seiliedig ar deilyngdod, roedd dwy wraig wedi eu penodi i'r pwyllgor. Nodwyd y bydd hyn yn gymorth gyda'r pryder blaenorol fod anghydbwysedd o ran rhyw ar y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, a bydd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys hyfforddiant gloywi a blaengynllun gwaith.

12.3 Diolchodd y Cyng. P C Evans i'r Clerc am ei drefniadau ar ddiwrnod y cyfweliadau, a chadarnhau bod y tri ymgeisydd yn rhai o safon uchel. Nododd y sylwadau ynglŷn â'r ffaith nad oedd y pwyllgor safonau ond wedi cyfarfod unwaith y flwyddyn yn y blynyddoedd a fu, ac awgrymu y gallai'r pwyllgor ystyried edrych ar ymgynghoriadau er mwyn cynyddu ei lwyth gwaith.

12.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod o'r Awdurdod.**

13 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2010

13.1 Cafodd yr Aelodau ddyddiadau cyfarfodydd 2010 yr Awdurdod, y Panel Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a gweithgor yr Hyrwyddwyr.

13.2 **PENDERFYNWYD nodi dyddiadau'r cyfarfodydd.**

14 COFNODION ER GWYBODAETH

14.1 Nodwyd cofnodion (heb eu cadarnhau) o'r ddau gyfarfod canlynol:

(i) Y Panel Gweithredol, Tachwedd 16eg 2009;
(ii) Pwyllgor Archwilio, Tachwedd 27ain 2009.

14.2 Gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod cyntaf i benodi'r Cyng. E C George yn Gadeirydd a'r Cyng. D Barratt yn Is-Gadeirydd y pwyllgor. **PENDERFYNWYD cadarnhau'r ddau benodiad.**

Gadawodd y Cyng. M Thomas ar yr adeg hon.

15 Y CYLCHGRAWN 'ER GWYBODAETH'

15.1 Cyflwynodd ACFO Hanks y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn, a rhoi gwybod i'r Aelodau y bydd y rhifyn nesaf mewn diwyg newydd.

15.2 **PENDERFYNWYD derbyn y cylchgrawn.**

RHAN II

16 YR ADOLYGIAD O GYFLOGAU'R UWCH SWYDDOGION

16.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am ganlyniadau'r adolygiad annibynnol o gyflogau'r uwch swyddogion yn y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â phum swydd. Yn Rhagfyr 2006, cytunodd yr Awdurdod y byddai cyflogau'r uwch swyddogion yn cael eu hadolygu bob tair blynedd, gyda dyddiad yr adolygiad nesaf wedi ei drefnu i fod ar Ebrill 1af, 2009. Roedd yr adolygiad wedi ei gynnal gan y *Reward Partnership*, ac roedd John Kirkwood, un o'r ymgynghorwyr a oedd wedi cynnal yr adolygiad, yn bresennol yn y cyfarfod i esbonio'r broses i'r Aelodau ac i ateb unrhyw gwestiynau a oedd yn codi.

16.2 Dywedwyd wrth yr aelodau i ystyried dau gwestiwn. Yn gyntaf, cyfraddau cyflogau uwch swyddogion sy'n cymharu yn y farchnad swyddi ac a fyddai'n cwrdd â dau brawf, sef (i) triniaeth gyfartal a (ii) lliniaru'r risg o ran recriwtio a chadw. Yn ail, y gallu i fforddio unrhyw gynnig cyflog o fewn cyd-destun y ddarpariaeth gyflogau a osodwyd o fewn cyllideb yr Awdurdod, ac o fewn cyfyngiadau'r gyllideb honno'n gyffredinol.

16.3 **PENDERFYNWYD:**

**(i) derbyn argymhellion yr adolygiad annibynnol o gyflogau'r uwch swyddogion, a rhoi'r newidiadau yng nghyflogau'r pum uwch swyddog, fel y nodwyd yn adroddiad yr adolygiad, ar waith mewn tri cynyddran, gan ddod i rym ar 1af Ebrill 2009; a**

**(ii) bod disgwyl i'r drydedd swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol weithredu ar lefel 'Rheolaeth Aur' pan gaiff ei hysbysebu yn 2010, gyda'r ymgeiswyr naill wedi cael eu hyfforddi eisoes i lefel 'Rheolaeth Aur' neu fod angen iddynt gyrraedd lefel 'Rheolaeth Aur' o fewn amser rhesymol, a bod y Prif Swyddog Tân yn cyflwyno adroddiad pellach ynglŷn â'r amserlen recriwtio a'r trefniadau ar gyfer y swydd.**